

Ymateb y Comisiynydd i Rural Connect

Mae Rural Connect yn cynnwys negeseuon cryf ar gyfer y cyhoedd a'r heddlu. Mae'n ddarn pwysig o ymchwil ar gyfer hysbysu'n dealltwriaeth o heriau plismona cymunedau gwledig.

Mae aelodau o'r cyhoedd yn Nyfed-Powys, Sefydliad y Prifysgolion ar Wyddorau'r Heddlu, Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth a'r heddlu wedi cyflwyno cyfraniadau pwysig i'n dealltwriaeth o bryderon ynghylch trosedd a chyfiawnder gwledig.

Mae'r lleisiau yn yr ymchwil hwn yn haeddu cael eu clywed. Maen nhw'n tynnu sylw at feysydd y mae angen i ni fynd i'r afael a nhw. Mae angen mân newidiadau mewn rhai o'r meysydd hyn; mae angen gwaith mwy sylweddol ar gyfer meysydd eraill. Byddaf yn archwilio iddynt yn fanylach gyda'r Prif Gwnstabl.

Mae Timoedd Plismona Bro yn hollbwysig. Mae'r cyhoedd eisïau i'r heddlu adnabod y gymuned maen nhw'n gwasanaethu, a chael eu hadnabod.

Rwy'n bwriad:

- Adolygu darpariaeth o'r gwasanaeth 'Fan Bobby'. Camgymeriad oedd cael gwared ar y gwasanaeth hwn.
- Ehangu ar wasanaethau cyflafareddu a'u hyrwyddo. Mae cyflafareddu'n cynnig gwir botensial ar gyfer canlyniadau gwell, cynt, rhatach a llai ingol ar gyfer anghydfodau.
- Archwilio i ymgyrch "**Dywedwch Helo!**" er mwyn annog swyddogion a'r cyhoedd i siarad mwy ar sail ddyddiol.
- Darparu gwell symudedd ar gyfer swyddogion heddlu bro. Byddwn ni'n ystyried sgwteri, beiciau modur, beiciau pedal a mopedau yn ogystal â cherbydau confensiynol.

Mae'n rhaid i'r heddlu ddeall y gymuned leol; dylai swyddogion fyw yn yr ardal maen nhw'n plismona.

Mae rhai camau gweithredu ar gyfer gwella hyn eisoes ar waith. Byddaf yn dilyn y canlynol â'r Prif Gwnstabl:

- Ceisio awgrymiadau gan y Prif Gwnstabl ynghylch sut y gall hyrwyddo adlewyrchu a chefnogi'r rôl plismona bro yn well.
- Gofyn i'r Prif Gwnstabl adolygu rheolwyr canol ac adnabod cyfleoedd ar gyfer hyrwyddo o fewn timoedd plismona bro.
- Sicrhau bod arbenigaethau – er enghraifft, arbenigedd o ran pentrefi, arbenigedd o ran ffermydd, arbenigedd seiber ac arbenigedd gwledig – yn cael eu hadlewyrchu wrth recriwtio Cwnstabliaid Gwirfoddol.
- Sicrhau bod gwaith cyswllt ysgolion yn dod yn gyfrifoldeb ar gyfer timoedd plismona lleol. Rydyn ni'n adolygu'r rhaglen hon ar hyn o bryd.

Mae'r pethau bach yn bwysig. Mae'r cyhoedd eisïau i swyddogion lleol fynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae angen i uwch swyddogion roi'r grym i swyddogion wneud penderfyniadau lleol. Mae cyfiawnder lleol yn bwysig.

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o faterion. Rwy'n cynnig y canlynol mewn trafodaeth â'r Prif Gwnstabl:

- Mae angen atgyfnerthu newid diwylliannol. Rydyn ni eisoes wedi cael gwared ar dargedau ar gyfer swyddogion heddlu, gan alluogi swyddogion lleol i ganolbwyntio ar faterion lleol yn hytrach nag anelu i fodloni targedau afrealistig a mympwyol.

- Dylai Cronfa'r Comisiynydd barhau. Mae'r gronfa'n hyrwyddo penderfyniadau rheng flaen ac yn annog swyddogion lleol a chymunedau i atal trosedd. Eisoed, mae'r gronfa wedi rhannu £248,600 rhwng 70 prosiect.
- Mae TG Symudol eisoed yn rhoi mwy o rym yn nwylo swyddogion. Bydd y rhaglen hon yn cael ei chwblhau erbyn mis Mehefin. Rydyn ni'n ystyried buddsoddiadau pellach mewn TG.
- Rhaid lleoli gorsafoedd heddlu symudol yn ofalus. Mae'r cyhoedd a'r heddlu'n amheus ohonynt. Rhaid i faniau gael eu defnyddio a rhaid bod ganddynt yr offer i fodloni angen lleol.

Mae angen gwaith pellach o ran perthnasau rhwng y cyhoedd a'r heddlu er mwyn cynyddu hyder a ffydd.

Mae'r heddlu'n edrych ar ffyrdd o wella cynlluniau gwarchod cymunedol sy'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr ac yn edrych ar sefydlu prosesau sy'n cefnogi ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r defnydd o systemau negeseuon cymunedol.

Mae timoedd lleol yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o ddulliau i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd.

Bellach, mae timoedd plismona bro ar Twitter. Mae nifer yn cynnal digwyddiadau galw heibio lleol, ac mae gorsafoedd ar agor pan mae swyddogion heddlu yno.

Bydd gwaith ar gyfer ail-ddatblygu'r ystâd, a fydd yn ystyried y canfyddiadau hyn, yn cychwyn yn ystod haf 2015.

- Byddaf yn trafod cael gwared ar gyfarfodydd Partneriaid a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) gyda'r Prif Gwnstabl. Hoffwn weld mentrau lleol ar gyfer gwella gwaith gyda sefydliadau partner a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel ble maent yn byw.
- Rhaid gwella'r system 101. Rwy'n disgwyl gweld system symlach yn cael ei chyflwyno yn 2015.

Rwy'n falch bod yr ymchwil hwn, ynghyd â'r Adolygiad Llenyddiaeth ar Blismona a Throseddau Gwledig a gynhaliwyd gan UPSI, wedi bod yn allweddol o ran datblygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Plismona Gwledig Heddlu Dyfed-Powys.

Rwy'n bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn gyda'r heddlu, UPSI a phartneriaid i archwilio i sut y gallwn wella diogelwch ymhellach ar gyfer cartrefi a theuluoedd ledled Canolbarth Cymru.